

Cyfarfod	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
Dyddiad	26 Hydref, 2017
Pwnc	Cyfweliadau Datblygiad Personol – Cyfarfodydd Unigol yn dilyn o'r anwytho
Pwrpas	Diweddaru'r pwyllgor ar negeseuon o gyfarfodydd gydag aelodau newydd
Awdur	Vera Jones Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd

CYFLWYNIAD

1. Bydd y Pwyllgor yn ymywbodol, mae'n siwr, bod cyfrifoldeb ar y Cyngor i fod yn cynnig Cyfweliadau Datblygu Personol i bob aelod er mwyn trafod anghenion hyfforddi a datblygu. Bydd angen i'r Pwyllgor drafod hyn a'r ffordd y mae am wneud hynny dros y misoedd nesaf ar ôl i aelodau'r Cyngor newydd ymsefydlu yn eu gwaith.
2. Fodd bynnag, fel rhan o drefniadau'r Cyngor ar gyfer anwytho aelodau etholedig ar ôl yr etholiad, fe wnaed cynnig i'r 24 aelod newydd o'r Cyngor os oeddent yn dymuno cael sgwrs 1:1 wrth iddynt setlo i fewn i'r gwaith.
3. Cynhaliwyd 10 o'r cyfarfodydd hynny gydag Arwel Jones, yr Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol. Roedd yn gyfle i gael trafodaeth gyfrinachol gyda'r aelodau ac roedd yn gyfle i drafod amrywiaeth o faterion wrth i'r aelodau newydd gyfarwyddo â'r Cyngor a setlo i mewn i'w gwaith. Diben yr adroddiad hwn yw adrodd rhai negeseuon cyffredinol sydd angen sylw'r Pwyllgor a oedd yn codi o'r cyfweliadau hynny, a gwahoddir barn y Pwyllgor arnynt.

PRIF NEGESEUON

4. Mae'n amlwg o'r trafodaethau bod tipyn o waith cyfarwyddo gyda'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio fel sefydliad. Mae hynny yn disgyn i ddau brif gategori. Yn gyntaf, trefniadau pwyllgor lle mae rhai o'r trefniadau cyfansoddiadol yn ddiethr iawn i rai aelodau. Cynhaliwyd "syrjeri" ar 14 Medi i helpu ar y materion hyn. Cafodd hwnnw ei fynychu gan 10 aelod a oedd yn werthfawrogol iawn ond dim ond 3 o'r 10 oedd yn aelodau newydd. Felly, efallai y byddai'n fuddiol ail redeg y sesiwn neu ddarparu pecyn dysgu ar lein gan ddefnyddio darnau o'r sesiwn a gafodd ei ffilimio ar gyfer y diben hynny.
Gwahoddir barn y Pwyllgor.
5. Yr ail, elfen o ddeall gwaith y Cyngor yw gwybod gyda pwy i gysylltu ar wahanol achlysuron. Mae aelodau yn parhau yn aneglur efo pwy i gysylltu – yn arbennig ar faterion gwasanaeth. Wrth gwrs, ar y Porth Aelodau, mae taflen lle mae pob adran wedi nodi'r cyfrifoldebau am wasanaethau a manylion cyswllt ar gyfer hynny. Mae dwy elfen i'r broblem o wybod gyda pwy i gysylltu.
 - a) Yn gyntaf, mae nifer o aelodau yn parhau yn anghyfarwydd â'r Porth ac ddim yn gwybod sut mae cael gafael ar y swyddogion, ac
 - b) Yn ail mae rhai aelodau yn teimlo y dylent fedru cysylltu â swyddogion sydd yn is ar y strwythur na'r Rheolwyr Gwasanaeth a nodir ar y Porth.

Gyda chytundeb y Pwyllgor, ein bwriad yw trefnu sesiynau “syrjeri” ar faterion TG, yn cynnwys defnydd o’r Porth, cyn neu ar ôl cyfarfodydd nesaf y 4 Fforwm Ardal.

O ran cynnwys y rhestr, gyda chytundeb y Pwyllgor, fe ofynnwn i bob adran adolygu cynnwys y rhestr i weld a yw’n rhesymol rhyddhau manylion cyswllt mwy o swyddogion i aelodau fedru cysylltu â hwy.

Yn ychwanegol, gwnaethpwyd cryn waith datblygol er mwyn sefydlu’r porth erbyn mis Mai 2017, ond mae ei lwyddiant yn ddibynnol ar iddo gael ei ddefnyddio yn gyson a bod gwybodaeth addas wedi ei gynnwys ar y porth. Er mwyn sicrhau fod y wybodaeth yn parhau yn addas ac yn gyfredol, gwahoddir y pwyllgor i ystyried adnabod 2 – 3 aelod o’r pwyllgor i ffurfio grwp bychan i gynghori swyddogion ar y cynnwys ac unrhyw ddatblygiadau pellach l’r Porth.

Gwahoddir barn y Pwyllgor.

6. Mae aelodau, yn amlwg, wedi gwerthfawrogi’n fawr iawn y trefniadau i’w hanwytho ar ddechrau oes y Cyngor, yn arbennig felly y ddau ddiwrnod llwyddiannus a gynhaliwyd ym mis Mai, 2017. Fodd bynnag, o edrych ar gynnwys y sesiynau hynny a hyfforddiant dilynol, mae’n amlwg bod y ffocws wedi bod ar ofynion gwaith “o fewn y Cyngor” gyda ychydig iawn o sylw i waith yn y gymuned ac ar y ward, elfen eithriadol o bwysig o waith aelod. Wrth gwrs, mae sut y mae aelod yn gweithredu o fewn ei ward yn fater personol iawn ond awgrymwyd ei fod yn rhywbeth lle y gallai aelodau ddysgu oddi wrth ei gilydd i weld ymarfer da. Awgrymir felly ein bod yn trefnu “syrjeri” arall lle y mae aelodau newydd a phrofiadol yn rhannu y modd y maent yn delio â materion ward a gweld os yw trefn felly yn profi yn llwyddiannus. **Gwahoddir barn a sylwadau gan y Pwyllgor.**
7. Mae anghenion penodol wedi codi mewn rhai achosion ar faterion unigol. Mae rheoli amser, yn amlwg, yn fater anodd wrth i gynghorwyr geisio cadw cydbwysedd gwaith cyngor, gwaith ward a bywyd bob dydd. Bydd modd trafod efo’r aelodau hynny i weld a fyddent yn medru elwa o dderbyn hyfforddiant rheoli amser. Mae trefniadau ar y gweill gan y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu i gynnig Webinar Rheoli Amser cyn diwedd Tachwedd gyda’r opsiwn o gynnig hyfforddiant pellach wyneb i wyneb hefyd i’r rhai sy’n ei ddymuno. **Gwahoddir barn a sylwadau gan y Pwyllgor.**
8. Materion eraill mwy penodol yw rheoli newid, siarad cyhoeddus a delio â phobl anodd. Hawdd gweld bod angen cynnig darpariaeth ar gyfer y math hwn o angen a bydd yr Uned Dysgu a Datblygu yn ystyried beth yw’r ffordd gorau o gynnig y ddarpariaeth hynny. Mae trefniadau ar y gweill i gynnig hyfforddiant (wyneb i wyneb) “Arwain Cymunedau trwy Newid”, Siarad yn gyhoeddus a delio hefo pobl anodd. Oherwydd natur y pynciau, ein bwriad fydd rhedeg cyfres o sesiynau i grwpiau llai. Rhagwelir cynnig y teitlau yn gynnar yn y flwyddyn newydd ond gallwn fod yn hyblyg. **Gwahoddir barn a sylwadau gan y Pwyllgor.**
9. Mae’r maes Tai wedi bod yn faes sydd yn anodd, yn arbennig i aelodau newydd er mwyn iddynt ddeall cyfrifoldebau’r Cyngor a’r cymdeithasau tai a Chartrefi Cymunedol Gwynedd yn benodol. Yn dilyn hyn, trefnwyd bod y Gwasanaeth Tai yn cynnal sesiynau briffio i aelodau newydd ym Medi a Tachwedd er mwyn esbonio sut y mae’r systemau yn gweithio a sut y mae cynghorydd yn medru gweithredu ar ran ei etholwyr yn y maes hwn.

10. Gwahoddir ymateb y pwyllgor i'r pwyntiau a nodir uchod ac i gynnig arweiniad ar y ffordd ymlaen ar y materion hyn.